

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants

# Arfarniad Nodweddion a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

## Ardal Gadwraeth Llanelli

# Contents


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 1 |
| 1.0 Cyflwyniad | 2 |
| 2.0 Dealltwriaeth am y Safle | 5 |
| 3.0 Datblygiad Hanesyddol | 6 |
| 4.0 Dadansoddi Gofodol | 11 |
| 5.0 Cymeriad ac Ymddangosiad | 18 |
| 6.0 Dadansoddiad | 25 |
| 7.0 Arwyddocâd | 26 |
| 8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli | 29 |
| 9.0 Cyfleoedd | 40 |
| Atodiadau | 42 |
| Atodiad I: Llyfryddiaeth | 43 |
| Atodiad II: Geirfa | 44 |
| Atodiad III: Mapiau | 46 |
| Atodiad IV: Adolygiad o'r | 51 |
| Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau | 52 |


Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Thîm Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Gâr:

BHConsultations@carmarthenshire.gov.uk

*Cyfieithiwyd yr adroddiad hwn gan drydydd parti, ac nid oes gan Donald Insall Associates unrhyw gyfrifoldeb drosto.*

Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol ynddo, ac yn codi ohono, yn eiddo i Donald Insall Associates neu'r cleient neu dan eu trwydded. Ni chaniateir atgynhyrchu'r adroddiad hwn ar ei hyd, neu unrhyw ran ohono, nac unrhyw ddyluniad, cynllun, dogfen arall nac unrhyw wybodaeth a geir ynddo, ar unrhyw ffurf heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient fel sy'n briodol. Ni chaniateir cyhoeddi nac atgynhyrchu'r holl ddeunyddiau y mae'r hawliau eiddo deallusol wedi'u trwyddedu i DIA neu'r cleient ac unrhyw hawliau o'r fath sydd gan drydydd parti, ar unrhyw ffurf. Dylid gwneud unrhyw gais am ganiatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath i gyhoeddi neu atgynhyrchu yn uniongyrchol i'r sawl sy'n meddu ar yr hawliau eiddo deallusol ynddo.

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Crynodeb

Dynodwyd Llanelli yn Ardal Gadwraeth ym 1971. Mae'n briodol ac angenrheidiol bellach gwneud cofnod o arwyddocâd yr ardal hon, ystyried a yw'r ffiniau cyfredol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain rheolaeth, cadwraeth a gwelliant yr ardal yn y dyfodol. Dyna yw nod y ddogfen hon.

Mae gan yr ardal hanes cyfoethog, yn dyddio'n ôl i'w datblygiad diwydiannol yn y 18fed a'r 19eg Ganrif. Mae'r esblygiad hanesyddol wedi gadael gwaddol o ddiddordeb a chymeriad pensaernïol y dymunir eu cadw neu wella. Ystyrir y canlynol yn brif nodweddion o arwyddocâd yr ardal:

1. Lleoliad Eglwys Sant Elli, sef tarddiad y dref
2. Canolfan ar gyfer diwydiant Cymru a gefnogodd ei thwf yn ogystal â thwf trefi cyfagos drwy ei lleoliad ar yr arfordir
3. Plas Llanelly, adeilad arwyddocaol â phwysigrwydd cenedlaethol
4. Bu nifer o deuluoedd, pobl a digwyddiadau enwog o fudd i dyfu'r dref a chynnal ei phwysigrwydd

Cesglir y dylai statws ardal gadwraeth yr ardal barhau, ond dylid rhoi ystyriaeth i greu dwy ardal gadwraeth newydd i roi gwarchodaeth ychwanegol i beth o dreftadaeth bensaernïol a hanesyddol y dref.



1



3

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Diben a Chwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Donald Insall Associates (Insall) i ymateb i friff gan Gyngor Sir Gâr (CSC) i baratoi Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Llanelli. Ariannwyd yr adroddiad hwn drwy grant gan y Gronfa Adfywio Cymunedol. Nod y prosiect hwn yw astudio ac asesu'r Ardal Gadwraeth gyfredol i ddeall a mynegi'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig, ystyried a yw'r ffiniau cyfredol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain rheolaeth, cadwraeth a datblygiad yr ardal yn y dyfodol. Bwriedir defnyddio'r ddogfen hon gan berchnogion adeiladau sy'n dymuno gwneud gwaith ar eu heiddo, gan benseiri a datblygwyr wrth ystyried newid i adeiladau sydd eisoes yn bodoli a chan staff yr Awdurdod Lleol i'w cynorthwyo nhw i wneud penderfyniadau.

Mae 4 rhan i'r adroddiad hwn:

Deall yr ardal: Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r

ardal, ei datblygiad hanesyddol a'i harwyddocâd.

Gwerthusiad o'r safle: Mae hyn yn nodi prif elfennau'r Ardal Gadwraeth (AG) a sut maent yn cyfrannu at ei chymeriad, ei hymddangosiad, a'i harwyddocâd.

Materion, bygythiadau a rheolaeth: Mae'r adroddiad yn parhau gydag arsylwadau ynghylch materion a bygythiadau penodol ac yn nodi cyfres o egwyddorion i helpu i arwain datblygiad y dyfodol gan sicrhau bod diddordeb arbennig y safle yn cael ei gadw a'i wella pryd bynnag mae hynny'n bosibl.

Cyfleoedd: Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar gyfleoedd sydd wedi'u hadnabod i fod yn sail i'r adran derfynol.

## 1.2 Diffinio Ardaloedd Cadwraeth

'Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad' yw ardaloedd cadwraeth.

Mae ardaloedd cadwraeth yn rhan unigryw o'r amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu dynodi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol am eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gallai diddordeb pensaernïol gynnwys enghraifft dda o fath penodol o anheddiad, cynllunio tref, neu grŵp o adeiladau o arddull ranbarthol neu leol unigryw neu o ansawdd pensaernïol dda. Mae diddordeb hanesyddol yn ymwneud ag esblygiad hanesyddol lleoliad, cyfnod penodol neu ddigwyddiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol, megis tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archaeolegol, pensaernïol neu dopograffeg o'r gwreiddiau a'r prif gyfnodau datblygu sydd wedi goroesi'n arbennig o dda. Mynegir cymeriad drwy bethau fel arddull adeiladu, deunyddiau, strwythur strydoedd, defnydd tir a chyfnodau datblygu.

O fewn y system gynllunio, caiff ceisiadau i newid AG eu hasesu i ddeall yr effaith y gall y datblygiad hwnnw ei chael ar arwyddocâd.

Arwyddocâd yw un o egwyddorion arweiniol Polisi Cynllunio Cymru 2021 (PPW). Gall hwn fod yn arwyddocâd archaeloegol, pensaernïol, artistig, neu hanesyddol a gall ddeillio o bresenoldeb ffisegol ac o'i osodiad hefyd.

Weithiau, rhoddir rheolyddion rheoliadol ychwanegol ar waith o fewn ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys dymchwel, gwaith i goed a hysbysebion. Mae gofyn i bob penderfyniad cynllunio gael ei asesu yn erbyn arwyddocâd yr ardal i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i gwella pryd bynnag mae hynny'n bosibl.

Mae'r ddogfen hon yn nodi arwyddocâd a chymeriad yr ardal i gynorthwyo'r rheini sy'n gwneud cais am newid neu sy'n gwneud penderfyniadau ddeall achosion lle all cynigion effeithio ar hyn a phennu a yw hwn yn newid cadarnhaol neu negyddol.

## 1.3 Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cysylltiedig

Mae'r prif ddarpariaethau ar gyfer dynodi a rheoli ardal gadwraeth wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, a pholisi a chanllawiau cynllunio'r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys:

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 Chwefror 2021

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru, Medi 2021

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021

Mae crynodeb a dolenni i'r dogfennau hyn i'w cael mewn atodiad i'r ddogfen hon.

## 1.4 Datganiad Dull

Ymgymerwyd â'r canlynol drwy baratoi'r adroddiad hwn:

*1. Adolygiad o wybodaeth gyfredol*

Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau i ddeall diddordeb hanesyddol a phensaernïol yr ardal, gan gynnwys dogfennau wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi, cofnodion cynllunio, canllawiau a deddfwriaethau wedi'u mabwysiadu a rhai newydd ac adnoddau ar-lein.

*2. Casglu Gwybodaeth*

Ymwelodd Insalls â'r safle fis Chwefror a Mawrth 2022 i ymgymryd â dadansoddiad nodweddion a gofodol. Cafodd adeiladau a safleoedd eu gweld o fannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac ni chawsant eu hymchwilio'n fewnol.

*3. Ymgysylltu â'r Gymuned*

Nod allweddol y prosiect yw deall a mynegi'n glir yr hyn mae'r gymuned leol yn ei werthfawrogi am yr ardal. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cymunedol a staff perthnasol yn y Cyngor wrth ddrafftio'r ddogfen hon ac mae hyn wedi helpu i ffurfio ei chasgliadau. Dylid ystyried y ddogfen hon yn fan cychwyn ar gyfer trafod a bydd yn cael ei rhannu ymhellach gyda rhanddeiliaid cymunedol perthnasol. Rydym yn croesawu adborth i ddeall safbwyntiau lleol o werth nodweddion trefluniau, eu problemau a'u cyfleoedd.




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli

## 2.0 Dealltwriaeth am y Safle

### 2.1 Crynodeb o Arwyddocâd a Chymeriad

Mae prif nodweddion yr ardal a'r eitemau o arwyddocâd wedi'u crynhoi isod (gweler rhestr hirach yn adran 7).

- Lleoliad Eglwys Sant Elli o le datblygodd y dref
- Canolfan Gymreig ar gyfer diwydiant a gefnogodd ei thwf yn ogystal â'r trefi cyfagos drwy ei leoliad arfordirol
- Plas Llanelly, adeilad sylweddol o bwys cenedlaethol
- Nifer o deuluoedd, pobl a digwyddiadau nodedig a helpodd i dyfu a chynnal pwysigrwydd y dref
- Potensial archaeolegol cryf
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i'r ardal, ohoni a thrwyddi, wedi'i diffinio'n aml gan St Elli
- Adeiladau o bwys yn lleol a chenedlaethol
- Adeiladau nodedig, y cwbl gyda'u manylion, deunydd a defnydd eu hunain sy'n creu amrywiaeth ac yn addasu golygfeydd y stryd yn barhaus
- Sgwâr trefol amlwg sy'n gysylltiedig â'r eglwys

### 2.2 Lleoliad

Mae'r ardal gadwraeth wedi'i lleoli yng nghanol Llanelli, ac yn cynnwys Eglwys Sant Elli a Phlas Llanelly. Dyma'r unig ardal gadwraeth yn y dref. Datblygodd y dref o gwmpas yr eglwys, gyda'r dref gyn-ddiwydiannol yn datblygu o'r adeg hon ymlaen. Mae cryn

dipyn o'r ardal gyfagos wedi newid yn sylweddol yn sgil gwaith ar y ffyrdd yn ystod yr 20fed Ganrif, sydd wedi cael gwared ar strwythur hanesyddol yr ardal i raddau helaeth, er bod Stryd Thomas, Stryd Vaughan, Stryd yr Eglwys, Bridge Street, a Hall Street yn parhau i fod yn eu lleoliadau hanesyddol, ond bod llawer o'r adeiladau ar eu hyd wedi'u dymchwel a'u hailadeiladu. Arferai'r afon Lliedi lifo i'r de yn yr AG, uwch ben Stryd Stepney, ond erbyn hyn mae wedi'i sianelu.

### 2.3 Topograffi a lleoliad

Mae Llanelli yn dref arfordirol mewn lleoliad strategol hanesyddol ar yr afon Llwchwr sy'n cysylltu'r dref â Sianel Bryste. Mae Caerfyrddin 17 milltir i'r gogledd ac Abertawe 12 milltir i'r de-ddwyrain. Wedi'i ffurfio ar hyd afon Lliedi, mae'r dref yn isel a gwastad, ond yn codi tua'r gogledd gyda golygfeydd allan at y tirlun cyfagos. Mae'r fynwent ei hun yn llechweddu o'r de i'r gogledd, gyda glan derasog ar wedd ogleddol yr eglwys.



## 3.0 Datblygiad Hanesyddol

### 12fed – 16eg Ganrif

Yn wahanol i drefi cyfagos eraill megis Cydweli a Chaerfyrddin, nid yw hanes Canoloesol Llanelli wedi'i ddogfennu gydag unrhyw sicrwydd, ac mae'n debyg bod y dref bresennol wedi dod i fodolaeth o ganlyniad i ddatblygiad diwydiannol yn ystod y 19eg a 20fed Ganrif, a all fod yn cuddio tystiolaeth gynharach o anheddiad. Mae tystiolaeth gofnodedig yn Llyfr Llandaf o ddiwedd yr 11eg Ganrif o eglwys Sant Elli, y tybir bod rhannau ohoni yn parhau yn yr eglwys bresennol, gyda chofnod arall o gastell Eingl-Normanaidd i'r gorllewin o hwn ar ddechrau'r 12fed Ganrif. Mae'n adnabyddus bod y castell wedi'i ddinistrio ym 1215 fel rhan o gynnwrf parhaus rhwng y Cymry a'r Saeson, ac mae wedi diflannu o gofnodion hanesyddol ers hynny. Nid oes sôn bod Llanelli wedi cael siarter tref sy'n awgrymu nad oedd anheddiad yma yn ystod y Canoloesoedd. Deallir bod yr enw "Llanelly" yn golygu eglwys

Ellyw neu Eliw. Parhaodd yr eglwys yn ffocws y dref

wrth iddi ddatblygu a thyfu. Credir bod y coed yw a geir yn y fynwent bresennol, y groes bregethu garreg, y tŵr a'r eil ddeheuol wedi goroesi ers ei sefydlu. Mae un o'r 6 chloch yn y tŵr yn dyddio'n ôl i 1440, un o'r hynaf yng Nghymru.

### 17eg-18fed Ganrif

Yn y 1530au, cyfeiriwyd at Lanelli fel pentref, ac ym 1609-13 mae'r cofnodion yn dangos 59 o rydd-ddeiliaid yma, sy'n dangos nad oedd wedi datblygu rhyw lawer yn ystod y cyfnod hwn. Awgryma fap a wnaethpwyd fel rhan o ymchwiliad archaeolegol Plas Llanelly sut ddaeth y dref i fodolaeth yn ystod y cyfnod hwn, gydag Eglwys Sant Elli a Phlas Llanelly yn eu lleoliadau presennol a thai wedi'u clystyru o gwmpas Stryd yr Eglwys, Bridge Street a Stryd Thomas, yn ogystal â hyd at ymyl gogleddol Gelli-onn. Mae'r dref wedi'i lleoli i'r gogledd o'r afon Lliedi, sydd wedi'i sianelu erbyn hyn, ond ar yr adeg hon byddai wedi teithio drwy ganol y dref. Credir bod The Falcon Inn ar ben dwyreiniol Bridge Street, sydd erbyn hyn yn ddwy annedd ar wahân wag, gyda mynedfa ganolog rhwng hwn a Phlas Llanelly i ardd helaeth y tu ôl i'r tŷ. Mae Gerddi'r Gwanwyn yn lleoliad bras gardd arall, a chredir bod yr hen gastell wedi'i leoli i'r de o'r fan hon. Ym 1623, rhoddodd James I Blas Llanelly i Syr Walter Vaughan, gwleidyddwr Saesneg, a Sieriff Wiltshire. Ym 1626, ychwanegwyd yr eil ogleddol at St Elli, yn dyst o'r cyfoeth a oedd nawr yn ganolbwynt i'r dref.

Yn ystod rhyfel cartref 1644-45, ysgrifennodd John Vaughan y canlynol "Some ammunition that came from Bristol, and ventured to relieve the town, was chased by a frigate of Swanley's, and hardly escaped, putting into a creek at Llanelly, and is safe." Credir bod brwydr wedi digwydd yn Llanelli neu'r cyffiniau ym 1648 ond nid oes tystiolaeth ohoni.

Tuag at ddiwedd yr Ail Ganrif ar Bymtheg, priododd Margaret Vaughan â Syr Thomas Stepney a daeth Llanelli i'w feddiant ef. Mae llawer o'r datblygiadau a ddigwyddodd yn y dref rhwng diwedd y 18fed Ganrif a'r 19eg Ganrif wedi'u credydu i'r cynnydd a wnaeth ef. Yn wir, mae nifer o enwau yn y dref yn dal i fod yn gysylltiedig â'r enw Stepney a Vaughan. Ef a anogodd y fasnach glo a chludo mwynau, yn ogystal â gwneud gwelliannau yn y pysgodfeydd gyda math newydd o gwch Cynllun tybiedig o'r dref yn y 12fed ganrif yr oedd ei ohebwyr




Cynllun tybiedig o'r dref yn y 12fed ganrif

yn ei alw'n 'fysiau', a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer trafnidiaeth. Ym 1714, cafodd Plas Llanelly ei ailadeiladu i'w ffurf gyfredol ar gyfer Syr Thomas.

**19eg Ganrif**

Oddeutu 1795, daeth Mr. Alexander Raby, masnachwr o Lundain, i Lanelli, a ffurfio sawl pwll glo a ffwrnais. Dechreuodd waith mwyndoddi yn y fro hefyd. Ar yr adeg hon, poblogaeth Llanelli oedd 500 o bobl ac erbyn 1801 cyrhaeddodd y boblogaeth 2000 o bobl. Yn "Tour in Wales", 1803, disgrifiwyd mai pysgotwyr a glowyr oedd yn byw yn y dref yn bennaf. Datblygwyd y dociau o geiau agored i ddociau nofiol gyda'r Doc Newydd y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Yn wir, ym 1811, llwythodd y Cadfridog Ward 51 o gychod gyda glo yn Llanelli, sy'n arwydd o'i faint a'i bwysigrwydd strategol ar gyfer masnachu. Yn 1805, adeiladwyd Gwaith Copr Penrhos.

Yn "England Described", 1821, dywedodd Aitken "one of the most thriving places in South Wales in proportion to its extent, flourishes by means of coal of the best quality, and iron ore, which abound in the neighbouring county. This has caused the establishment in it of large iron works, and others in which metallic processes are going on; and its communication with its interior has been facilitated by several railroads". Cafodd tramffordd Sir Gaerfyrddin, a gefnwyd arno yn y pendraw, ei sefydlu tua'r adeg hon, sef lleoliad presennol Rheilffordd Llanelli a Mynydd Mawr.

Erbyn 1844, cofnodwyd bod 11,155 o breswylwyr yn y dref a disgrifiwyd yn lleoliad a oedd yn parhau i dyfu o ran poblogaeth ac ardal. Nodir hefyd nifer o 'dai mawr' a oedd yn cael eu hadeiladu, yn ogystal â 'nifer o rai eraill di-gymeriad'.

Fel y cyfryw, mae hanes Llanelli yn cael ei ddominyddu gan hanes diwydiannol ac mae'r rhan fwyaf o'r dref a welwn heddiw o ganlyniad i chwyldro diwydiannol y 19eg Ganrif a arweiniodd at ei ehangiad cyflym, gan gyflwyno ffatrïoedd, yn ogystal â thai, siopau, ac adeiladau cyhoeddus hefyd. Adeiladwyd darllenfa, sefydliad llenyddol a gwyddonol, ym 1857 drwy arian cyhoeddus, ac ychwanegwyd Neuadd Goffa Neville ym 1864. Adeiladwyd London and Provincial Bank ym 1879, sef Barclays erbyn hyn. Yn sgil diwydiant, cyflwynwyd arloesedd a gwnaethpwyd nifer o ddyfeisiau yn y dref, gan gynnwys olwyn newydd Raby ar gyfer rheilffyrdd 1811, olwyn sgwâr Stepney ym 1902 ac ateg pibellau 'lletem' ym 1909. Yn Llanelly Trade Directory, 1897, ceir hanes cryno Llanelli sy'n rhoi cofnod da i ni o'r dref yn y cyfnod hwn. Pasiwyd Tariff McKinley yn gyfraith yn America ym 1890 a gynyddodd yn sylweddol y dreth fewnforio ar gynhyrchion tramor. Fel y cyfryw, roedd y diwydiant tunplat, sef prif ddiwydiant y dref, dan fygythiad; wedi dweud hynny, cafwyd marchnadoedd newydd a oedd yn agor y drws at fasnachu â chyfandiroedd eraill oherwydd lleoliad strategol y dref ar yr Afon Llwchwr. Arallgyfeiriwyd diwydiannau a nodwyd y canlynol ymhlith yr allforion; copr, dur, plwm, haearn, aur, cemegau, brics, tanwydd, iardiau adeiladu llongau, iardiau coed, gofaint angorau, rhafflannau, a chrochendai (gyda cheiliog unigryw wedi'i beintio â llaw ar bob eitem). Mae'r farchnad hefyd wedi'i galw yn un o'r goreuon yng Nghymru, yn ogystal â'r Neuadd y Dref newydd lle'r oedd swyddfeydd a siambrau'r cyngor, neuadd y llys, yr heddlu a busnesau brawdlys.

Parhaodd Llanelli yn ganolfan fyd-eang ar gyfer cynhyrchu tunplat, cymaint felly nes y cyfeiriwyd at y dref yn "Tinopolis" yn hanner olaf y 19eg Ganrif. Ger ymyl Orllewinol Maes Glo De Cymru, chwaraeodd Llanelli rôl bwysig yn cefnogi diwydiannau ymhellach draw. Er nad yw tref Llanelli wedi'i lleoli yng nghymoedd de Cymru, byddai glo o Gwm Gwendraeth a Dyffryn Llwchwr yn cael ei gludo i Lanelli i'w allforio.

Mae Mapiau OS o 1880 yn rhoi syniad da i ni o strwythur yr AG cyn lledu'r ffyrdd yn hanner olaf yr 20fed Ganrif a gafodd wared ar lawer o gynllun ac adeiladau gwreiddiol y dref a oedd yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif. Mae Stryd Thomas yn parhau i fod fel y mae heddiw ond gweler adeiladau ar ddwy ochr y ffordd ac yn cau ymyl ddwyreiniol y fynwent. Mae'n ymuno â Heol Goring i'r gogledd, yn yr un modd ag y mae

heddiw, ond rhwng hwn a'r fynwent, mae cryn wahaniaeth rhyngddynt. Mae'r tai ar Heol Goring sy'n dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif wedi'u cadw i raddau helaeth, a gwelir hyn ar y map. Mae'n rhoi syniad da o sut le oedd rhai o'r strydoedd hyn sydd wedi'u colli. Mae'r fynwent ei hun wedi'i chau o bob ochr, gyda'r Ship Inn a Mansel Arms i'r de-orllewin. Y Mansel Arms yw'r unig adeilad sydd wedi goroesi o'r hen stryd. I'r gogledd o'r eglwys mae Oxen Street, Wind Street, Cil-Heol a

Gelli-onn rhwng Stryd Thomas a Hall Street. Ymddengys mai tai preswyl sydd yn yr ardal hon gan fwyaf, yn ogystal â thafarndai, neuadd y dref, ac Union Square i'r gogledd o'r eglwys. Yn wahanol i gynllun mwy ffurfiol gweddill y dref, mae cyfres o strydoedd byrrach, ffyrdd cefn a llwybrau a all awgrymu ei ddatblygiad o anheddiad cynharach. I'r de o'r eglwys, mae'r Ddarllenfa ar gornel Stryd Vaughan a Stryd yr Eglwys gyda sgwâr cyhoeddus rhyngddi a'r fynwent a ffynnon dŵr yfed yn y canol. Mae adeiladau ar ddwy ochr Stryd yr Eglwys, gyda thanerdy i'r gorllewin a'r hen ficerdy yn goroesi yn y dwyrain gyda gardd fawr at y ffordd a'r ymyl deheuol. Nid oedd yr afon wedi'i sianelu ar yr adeg hon, gan lifo i'r gogledd o Stryd Stepney, a thorri drwy Stryd Vaughan. Mae'r gerddi y tu cefn i Blas Llanelli wedi'u llenwi â datblygiadau, ond mae olion o adeiladau gwasanaethau y tu cefn. Ymddengys bod y cynllun wedi parhau fel hyn i raddau helaeth hyd nes canol yr 20fed Ganrif. Cafwyd y newid mwyaf oddeutu 1894 pan adeiladwyd neuadd y dref a phan grëwyd sgwâr neuadd y dref a gafodd wared ar adeiladau i'r de o Stryd yr Eglwys yn ogystal ag ysgogi gwaith sianelu'r afon ar ddechrau'r 1900au.




Troslun o Ffin Hanesyddol Llanelli 1889 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)


**20th-21st Centuries**

O ddechrau'r 19eg Ganrif i ddiwedd yr 20fed Ganrif, roedd Llanelli yn ganolfan sylweddol i anghydffurfiaeth yng Nghymru gyda 22 o gapeli yn y dref erbyn 1950. Mae nifer o'r rhain wedi cau erbyn hyn a dim ond dau neu dri sy'n goroesi fel capeli gweithredol. Ym 1926, troswyd y Ddarllenfa yn llyfrgell gyhoeddus, ac ychwanegwyd rhan fawr, fodern arall ym 1972.

Defnyddiwyd y sillafiad Saesneg "Llanelly" hyd at 1966, ac yna cafodd ei newid i Lanelli ar ôl ymgyrch cyhoeddus lleol.

Gellid ystyried y 1970au yn gyfnod eithaf dinistriol i'r dref, gyda dymchweliad rhan isaf Stepney Street, dymchweliad y neuadd gerddoriaeth Fictoraidd ym 1977 ar gornel Mincing Lane a'r cwmni tunplat a stampio metel o Gymru yn cau ym 1978. Parhaodd y dinistr hwn drwy ledu'r ffordd ac adeiladu'r maes parcio i ogledd a gorllewin y fynwent, gan arwain at ddymchwel tai ac adeiladau eraill.

Yn 2009-14, gwnaethpwyd gwaith cloddio archaeolegol pan adnewyddwyd Plas Llanelly a darganfuwyd lloriau a waliau Tuduraidd cynharach sy'n dweud wrthym mai tŷ cyffredin yn dyddio'n ôl i'r 16eg Ganrif oedd hwn. Yn 2013, adnewyddwyd y tŷ fel bistro, man digwyddiadau a lleoliad priodasau.




Troslun o Ffin Hanesyddol Llanelli 1908 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

**Pobl a digwyddiadau enwog**

Mae'r dref wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau pwysig ac wedi bod yn gartref i nifer o bobl bwysig drwy gydol ei hanes, gan gynnwys y canlynol:

Ganwyd John Graham Chambers ym Mhlas Llanelly ym 1843 ac ef oedd yn gyfrifol yn bennaf am ddeddfau modern athletau, bocsio, a rhwyfo.

Bu John Wesley, yr offeiriad Anglicanaidd a damcaniaethwr Cristnogol y 18fed Ganrif a oedd yn arweinydd cynnar y mudiad Methodistaidd, yn pregethu yng nghyffiniau Eglwys Elli ddeuddeg gwaith.


Arthur William Haggar, arloeswr y sinema a gwneuthurwr ffilmiau, oedd yn berchen ar y Neuadd Gerddoriaeth Fictoraidd a oedd ar un adeg wedi'i leoli ar gornel Mincing Lane.

Ganwyd Eleanor Daniels ar Stryd Thomas ac aeth ymlaen i fod yn actores lwyddiannus, gan deithio'r UDA ac ymddangos yn nifer o ffilmiau tawel yn Efrog Newydd rhwng 1914 a 1925, y mwyaf enwog o blith y rhain oedd If Winter Comes, gyda Percy Marmont a Bebe Daniels. Ym 1930, dyfarnwyd Eleanor ag Urdd yr Orsedd mewn cydnabyddiaeth o'i gwasanaethau i Ddrama.

Sefydlwyd Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Llanelli pan adawodd Walter Bowen a Henry Rees y Bedyddwyr ac ymuno â'r Methodistiaid yng Nghoppa Fach. Yna cyfarfuant mewn tŷ ar Gelli-onn, yr oedd menyw o'r enw Martha yn berchen arno. Daeth y cynulliad crefyddol hwn yn adnabyddus fel Cymdeithas Martha a dechreuwyd pregethu mewn tŷ yn agos i'r fan hon ym 1786.

Mae nifer o artistiaid nodedig hefyd wedi'u geni neu wedi preswylio yn y dref, gan gynnwys James Dickson Innes, ffigwr pwysig yn sîn celf Prydain ar ddechrau'r 1900au, Walter Cole a Diana Roberts.

Anerchodd Emmeline Pankhurst bobl Llanelli yn Neuadd y Plwyf ym 1912




Troslun o Ffin Hanesyddol Llanelli 1953 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

# 4.0 Dadansoddi Gofodol

**4.1 Golygfeydd i'r AG, oddi mewn iddi ac ohoni**

Dylai effaith datblygiadau arfaethedig gynnwys ystyriaeth o olygfeydd i'r AG, oddi mewn iddi ac ohoni. Nodir y canlynol heb eithrio mannau gwylio eraill a gellir eu gweld ar y map canlynol.

*Eglwys Sant Elli*

Mae'r eglwys a'r fynwent yn parhau i fod wrth galon yr AG ac fel y cyfryw yn dirnod cyson ar draws yr ardal. Dylid atal datblygiadau sy'n amharu ar y golygfeydd hyn gan y gallant effeithio ar nodwedd arwyddocaol yr ardal.

*Golygfeydd stryd*

Er ei bod yn ardal weddol gyfyng, mae sawl golygfa allan o'r AG sy'n cynnig golygfeydd stryd pellgyrhaeddol heb eu heffeithio ac felly yn cael effaith weledol ar yr ardal. Gallai datblygiadau mawr ar hyd y ffyrdd hyn, neu'r rheini sy'n rhwystro'r golygfeydd hyn amharu ar y nodwedd hon.

Nodir isod golygfeydd strydoedd dan sylw, heb eithrio eraill:

Bridge Street

Bridge Street i Stryd yr Eglwys Stryd yr Eglwys i Hall Street Bridge Street i Stryd Thomas Bridge Street i Stryd Vaughan



Bridge Street yn edrych i'r dwyrain i Stryd yr Eglwys



Eglwys Sant Elli a Bridge Street



Bridge Street yn edrych i'r de i Stryd Vaughan

## Tirlun cyfagos, mannau agored, a golygfeydd caeedig

Oherwydd topograffi'r ardal, mae'r golygfeydd allan i'r tirlun cyfagos wedi'u cyfyngu i'r gorllewin ar hyd Hall Street. Drwy bedestreiddio Bridge Street a Stryd Vaughan, crëwyd lleoliad trefol cadarnhaol lle ellir gweld yr Eglwys, y llyfrgell, a Phlas Llanelly, sy'n gwella eu lleoliad ar yr un pryd. Mae'r AG wedi'i wneud yn bennaf o brif weddau sydd i'w gweld o Stryd yr Eglwys a'r fynwent, er y gellir gweld y tu cefn i Bridge Street a Stryd Vaughan o Mincing Lane. Wedi'i dominyddu erbyn hyn gan fuarthau gwasanaeth, yn y gorffennol roedd gerddi, stablau a thai allan yn gysylltiedig â Phlas Llanelly i'w cael yn yr ardal hon.




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli
Mannau gwyrdd cadarnhaol / wedi'u tirlunio / coed
Toeau arwyddocaol
Y prif dirnod / adeiladau allweddol
Golygfeydd pwysig o'r dirwedd
Golygfeydd pwysig o'r stryd
Golygfeydd terfynedig
Golygfeydd allwyredig

## 4.2 Prif Dirnodau ac Adeiladau Allweddol

Mae gan AG Llanelli 12 o adeiladau a strwythurau rhestredig ac mae hynny'n dyst i ansawdd dda y bensaernïaeth a'r cysylltiadau a'r datblygiadau hanesyddol sy'n rhan hanfodol o'i chymeriad.

### Adeiladau a Strwythurau Rhestredig

*Eglwys Sant Elli*

Mae'r eglwys yn dominyddu rhan helaeth o'r AG ac o'r fan hon y datblygodd y dref. Credir bod y tŵr a'r eil ddeheuol yn dyddio'n ôl i'w dyddiadau adeiladu gwreiddiol, er y cafodd y tŵr ei adnewyddu ym 1905-6 pan gafodd y rhagfur ei adeiladu, ochr yn ochr â rhagor o estyniadau. Mae un o'r 6 chloch yn y tŵr yn dyddio'n ôl i 1440, gan ei gwneud yn un o'r hynaf yng Nghymru ac mae'r tu mewn yn cynnwys cyfres o henebion yn dyddio'n ôl i'r 18fed Ganrif i aelodau teuluoedd Stepney a Vaughan, yn ogystal â gwydr lliw gan Burne-Jones. Yn adeilad Rhestredig Gradd II* am ei hansawdd pensaernïol a'i harwyddocâd hanesyddol, mae'n parhau i fod yn un o brif nodweddion yr AG, er bod ei lleoliad wedi'i effeithio'n negyddol gan y rhwydwaith ffyrdd sydd o gwmpas tri o'i hymylon.



*Plas Llanelly*

Yn adeilad Rhestredig Gradd I am ei ansawdd pensaernïol ac arwyddocâd hanesyddol fel tŷ tref Sioraidd cain yng Nghymru. Cafodd ei adeiladu oddeutu 1714 ar gyfer Syr Thomas Stepney yn lle preswylfa gynharach, fwy modern. Ymddengys ei fod wedi'i werthu yn hanner olaf y 18fed Ganrif a'i adael i adfeilio cyn y prynwyd ef gan William Chambers oddeutu 1825, sef sylfaenydd Crochendy De Cymru. Troswyd y gerddi y tu ôl i'r tŷ yn ardd gyhoeddus ym 1857, ond adeiladwyd ynddi erbyn diwedd y 1860au. Mae'n adeilad sylweddol sy'n diffinio'r gornel a llawer o Bridge Street a Stryd Vaughan ac ochr yn ochr â'r eglwys a'r llyfrgell gyhoeddus yn ffurfio grŵp arwyddocaol o fewn yr AG yn ogystal ag yn y dref ei hun.



*Porth y Fynwent*

Mae porth y fynwent yn St Elli yn strwythur rhestredig gradd II yn ei hawl ei hun fel enghraifft addurnol o waith coed Gothig wedi'i ysbrydoli gan yr arddull Celf a Chrefft. Dyma'r brif fynedfa i'r fynwent o Bridge Street. Cafodd ei hadeiladu ym 1911 i gofio am ail-adeiladu eglwys y plwyf gan Arthur Davies. Mae'r to teils coch a'r rhan uchaf o ffrâm bren addurnol gyda threswaith pren yn arbennig o nodedig ac yn creu mynedfa gadarnhaol i'r fynwent tu hwnt.



*Cofeb ryfel*

Mae'r groes wenithfaen ar gornel de-orllewin y fynwent, ac yn hollol glir i'r llygaid o Bridge Street, Stryd yr Eglwys a Stryd Vaughan. Yn strwythur rhestredig Gradd II, mae'r dyluniad o groes Geltaidd gydag arysgrif ar gyfer dynion 4ydd Bataliwn, Catrawd Cymru gan ML Edwards o Lanelli.



*Mansel Arms/ The Verandah*

Tŷ tafarn yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 19eg , o bosibl gan William Griffiths o Lanelli, sy'n enghraifft goeth tu hwnt o bensaernïaeth tai tafarn y cyfnod hwn. Ochr yn ochr â'r eglwys a'r llyfrgell gyhoeddus, mae'r tri adeilad hyn yn nodi mynediad i Bridge Street ac yn diffinio'r golygfeydd i'r gogledd o Stryd yr Eglwys. Mae'r brics coch yn nodedig am eu prinder yn yr AG a'r strydoedd cyfagos. Mae'r adeilad yn nodi ymyl gorllewinol y fynwent ac yn ymddwyn fel sgrin ynddi yn atal golygfeydd o'r rhwydwaith ffyrdd y tu hwnt. Mae hefyd yn agwedd ym mhen de-ddwyrain Hall Street sy'n parhau i oroesi, gyda'r adeiladau cyfagos wedi'u dymchwel pan ledaenwyd y ffordd.



*Llyfrgell Gyhoeddus*

Wedi'i hadeiladu ym 1857 fel sefydliad gwyddonol a llenyddol o'r enw'r Ddarllenfa, cafodd ei throsi'n llyfrgell ym 1926 gan HA Gold. Ychwanegwyd Neuadd Goffa Neville ym 1864 yn yr un arddull a thŵr. Codwyd estyniad mawr i'r gorllewin ym 1972 gan bensaer y fro. Adeilad sylweddol wedi'i leoli ar gornel Stryd yr Eglwys a Stryd Vaughan mewn arddull palazzo Eidalaidd ac yn rhestredig gradd II. Mae'r tŵr yn enwedig yn dirnod allweddol yn yr AG ac o strydoedd cyfagos, ac mae'r adeilad yn creu porth amlwg, llawn cymeriad i Bridge Street. Mae'n enghraifft o'r adeiladau cyhoeddus a gafodd eu codi i gefnogi twf y dref yn y 19eg Ganrif.



**Adeiladau a Strwythurau Anrhestredig Pwysig**

Nid yw'r adeiladau canlynol yn rhai wedi'u rhestru'n statudol, ond maent yn atgyfnerthu cymeriad yr ardal, yn darparu tirnod pwysig neu'n rhan o dreftadaeth Caerfyrddin oherwydd arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol, neu archaeolegol, ac yn cael eu cydnabod yn asedau treftadaeth na ellir eu disodli. Mae nifer o'r rhain yn enghreifftiau da o'r datblygiad a ddigwyddodd ar ddechrau a chanol yr 20fed Ganrif, y mae eu cyfraniad at yr AG yn deilwng hefyd. Fel y cyfryw, rydym yn cynnig eu cynnwys ar restr o adeiladau lleol teilwng; ni fyddai hyn yn rhoi gwarchodaeth statudol i adeilad ac ni fyddai angen caniatâd adeilad rhestredig i adeilad sydd wedi'i restru'n lleol, ond byddai diddordeb arbennig yr adeilad yn ystyriaeth sylweddol yn y broses gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

*12-14 Bridge Street*

O bosibl yn gyn-asgell gwasanaethau neu breswylfa yn gysylltiedig â Phlas Llanelly, erbyn hyn mae'r adeilad wedi'i rannu'n ddwy uned fasnachol i'r dwyrain. Yn wag ac mewn cyflwr gwael, mae rhan helaeth o'r deunydd gwreiddiol yn parhau i fod yno. Byddai ei atgyweirio a'i ailddefnyddio yn gwella'n sylweddol y porth hwn i'r AG ac adfer cymeriad Bridge Street unwaith eto.



*Neuadd y Plwyf*

Wedi'i adeiladu ym 1887 i ddathlu jiwbilî y Frenhines Fictoria, ond yn wag erbyn hyn. Er ei fod wedi'i fwrw i'r cysgod gan y datblygiad cyfoes y drws nesaf iddo, mae ei gymeriad a'i ddeunydd gwreiddiol yn parhau i raddau helaeth. Dyma ffin dde-orllewinol yr AG.



### 4.3 Mannau Gwyrdd a Naturiol Pwysig

Mae'r fynwent yn fan gwyrdd arwyddocaol yn yr AG a'r dref, yn enwedig y coed hynafol ar ei thir y tybir sy'n dyddio'n ôl i'w sefydlu yn yr 11eg Ganrif. Yn ogystal, mae nifer o goed stryd arwyddocaol o fewn yr AG ac ar ei ffin. Gweler y map canlynol. Mae nifer o fannau gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth sy'n ychwanegu'n fawr at ei chymeriad ac yn darparu toriadau pwysig i ddwysedd uchel yr adeiladau ar y stryd a lleoedd i ymlacio, myfyrio a gwerthfawrogi'r amgylchfyd. Maen nhw hefyd yn cynnig buddion i lesiant y rheini sy'n eu defnyddio ac felly yn meddu ar werth diwylliannol a chymunedol hefyd.



Mynwent St Elli yn edrych allan tuag at y llyfrgell gyhoeddus


Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli
Mannau gwyrdd
Coed
Grŵp o goed
Hall Street Methodist Church
Sunday School
GELLI-ONN
THOMAS STREET
ESS
LLYS YR HEN FELIN
HALL STREET
VAUXHALL ROAD
PH
Surgery
Car Park
The Verandah
St Ellyw's Church
Cwrt Buckley
Crown Parade
Falcon Chambers
Shelter
Rising Bollard
Line Of Posts
Lych Gate
War Memorial
Cross
BRIDGE STREET
LB
Llanelly House
Library
Club
Brookfield House
The Grange
CHURCH STREET
The Old Vicarage
El Sub Sta
Hall
The Corner House
PO
CROWN PRECINCT
VAUGHAN STREET
MINCING LANE
MARKET STREET
Und
TCB
Posts
Def
ED Bdy

# 5.0 Cymeriad ac Ymddangosiad

Mae'r adran hon yn disgrifio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal fel yr oedd ar adeg yr astudiaeth.

### 5.1 Nodweddion y Dref

Mae'r AG yn weddol gywasgedig, yn cynnwys llond llaw o adeiladau nodedig lle datblygodd y dref Ôl-ganoloesol o gwmpas St Elli. Gan fod yr eglwys a'r adeiladau yn ei hwynebu yn ffurfio grŵp arwyddocaol, ac oherwydd y gallai newidiadau i unrhyw un o'r rhain effeithio ar eraill, mae angen eu hystyried fel grŵp pan gaiff datblygiadau eu cynnig. Mae pedestreiddio Bridge Street wedi bod o fudd i'r adeiladau hyn ac wedi creu lle cadarnhaol i gael seibiant, edrych ar yr adeiladau o'ch cwmpas, a'u hystyried. Wedi dweud hynny, mae'r rhwydwaith ffyrdd prysur o gwmpas yr eglwys wedi cael effaith niweidiol, fawr drwy boblogi, sŵn ac effaith weledol. Mae wedi effeithio ar olygfeydd i'r AG hefyd. Bydd yn anodd gwella'r agweddau hyn heb leihau traffig neu greu llwybr newydd i'r traffig.

Mae'r eglwys yn rhwystro'n gadarnhaol y golygfeydd i'r ardal o Stryd yr Eglwys, Hall Street a Stryd Vaughan, gan gynnal ei phwysigrwydd gweledol yn hanes y dref. Mae pedestreiddio Stryd Vaughan wedi cael effaith gadarnhaol ar olygfeydd i'r AG, er bod y golygfeydd hyn wedi'u heffeithio'n negyddol gan ddatblygiad cyfoes. Gallai'r ardal werdd i ogledd yr eglwys gynnig ennyd cadarnhaol ond mae wedi'i ddominyddu gan y ffordd y tu hwnt iddi. Gall coed mawr neu blanhigion dwys guddio'r ymyl gogleddol.

Wedi'i diffinio gan gyfres o adeiladau mwy, mae gan bob adeilad ei natur ei hun, megis deunydd, manylion, lleoliad a ffurf sy'n annog pobl i ystyried bob un yn unigol yn ogystal ag mewn grŵp. Mae hyn yn creu amgylchedd amrywiol, sy'n newid drwy'r amser, ac yn un o brif nodweddion yr AG.

Ymddengys bod y rhai adeiladau sydd wedi'u cynnwys yn yr AG ar Stryd yr Eglwys ar wahân i'r ardal sydd wedi'i phedestreiddio yn Bridge Street, heb gysylltiad uniongyrchol â'r eglwys. Caiff hyn ei waethygu gan berthynas yr adeiladau sydd ar ymyl y ffordd ac mae'n newid y ffordd y gwelir y rhain, gan nad oes modd sefyll yn ôl a gweld yr adeiladau o bell. Mae'r estyniad cyfoes i'r llyfrgell wedi creu pellter ychwanegol rhwng y ddwy ardal ac yn cael effaith weledol niweidiol ar brif adeilad y llyfrgell.

Mae'r ardal y tu ôl i Bridge Street, gerddi cefn Plas Llanelly gynt, yn cael eu defnyddio erbyn hyn fel ardal wasanaethau a cheir mannau parcio oddi ar y stryd, gweddau cefn, allanfeydd tân ac estyniadau cyfoes yno.

Mae'r estyniad brics coch mawr yn dominyddu cyffordd Mincing Lane a Thomas Street ar hyn o bryd ac yn gwaethygu'r teimlad o'r ardal wasanaethau.

Gellid dyrchafu'r ardal hon er budd ehangach i'r AG.



Y rhwydwaith ffordd o amgylch yr Eglwys



Yr olygfa o Stryd Vaughan tuag at y fynwent

### 5.2 Deunyddiau adeiladu

Mae'r delweddau a'r rhestr ganlynol yn nodi enghreifftiau o'r deunyddiau a ddefnyddir yn yr AG sydd naill ai'n cyfnerthu neu'n gwarchod nodweddion yr ardal. Gan fod y rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr ardal yn strwythurau mwy, yn aml mae'r deunyddiau yn berthnasol i adeiladau unigol yn unig ac felly mae angen i ddatblygiad newydd ystyried ei gyd-destun uniongyrchol yn ogystal â'r AG ar y cyfan.

*Adeiladau a strwythurau mwy*

Carreg wedi'i

naddu â morthwyl

Manylion cerrig

Brics coch

Pren

*Deunyddiau cyffredin*

Rendr wedi'i beintio

Gorchuddion to llechi

Gwaith plwm

Gwaith pren wedi'i beintio

Nwyddau dŵr glaw haearn bwrw

*Deunyddiau ffiniau*

Gwaith haearn bwrw/gyr

Cerrig rwbel












## 5.3 Uchderau adeiladau a chysylltiadau â phlotiau

Mae'r adeiladau yn amrywio rhwng un llawr i dri llawr, gydag ystod o uchderau lloriau a lled baeau. Mae adeiladau mwy, megis y llyfrgell, St Elli a'r Mansel Arms wedi cynyddu uchderau lloriau, yn wahanol i Blas Llanelly ac adeiladau eraill ar Bridge Street sydd ar raddfa fwy domestig. Mae'r holl adeiladau wedi'u lleoli ar ymyl y stryd, ond oherwydd bod Bridge Street a Stryd Vaughan wedi'u pedestreiddio, mae gan yr adeiladau hyn ardal gyhoeddus fwy helaeth, sydd o fudd i'w gosodiad. St Elli yw'r eithriad, sydd wedi'i lleoli ar ei thir ei hun. Mae'r Hen Ficerdy a neuadd y gymuned ar Stryd yr Eglwys eill dau wedi'u lleoli y tu ôl i ffiniau, er bod adeilad neuadd y gymuned wedi'i lenwi yn y tu blaen.



Edrych i'r dwyrain ar hyd Bridge Street

## 5.4 Manylion nodweddiadol neu arwyddocaol

*Adeiladau a strwythurau mwy*

Tyrau

Rhagfur uwch – plaen a cholofnresog

Bondo deintell

Manylion wedi'u cerfio ar gerrig

Conglfeini ar ddangos

Ffenestri plwm bwaog

Pren addurniadol wedi'i gerfio

Bandiau cerrig

*Manylion cyffredin a welir ar draws yr AG*

Ffasgiâu addurniadol

Ffenestri codi pren – 1 dros 1, 6 dros 6, 8 dros 8, 12 dros 12

Drysau pren panelog

Canopïau drws

Amgylchynau ffenestri ar ddangos

Toeau ar ongl

Simneiau

Waliau ffiniau o gerrig

Rheiliau a giatiau addurniadol

Llusernau a manylion o waith haearn bwrw/gyr




















## 5.5 Tir cyhoeddus; arwynebau, dodrefn stryd ac arwyddion

Mae Bridge Street a Stryd Vaughan wedi'u pedestreiddio gyda phalmentydd o gerrig a slabiau cerrig ar ymyl adeiladau a chyffyrdd Stryd Thomas a Stryd yr Eglwys, sydd o fudd i osodiad yr adeiladau. Tarmac sydd ar y palmentydd eraill a'r llwybrau yn y fynwent, yn ogystal â'r

ffyrdd. I'r gwrthwyneb, mae St Elli wedi'i gosod mewn ynys yn y tirlun ac yn cynnig seibiant rhag tirlun caletach gweddill yr AG, er bod y tawelwch hwn wedi'i effeithio gan y ffordd gyfagos.

Yn ôl y disgwyl, mae nifer o arwyddion ffordd, goleuadau traffig a physt ar y rhwydwaith ffyrdd sy'n cael effaith negyddol ar olygfeydd i'r AG ac

ohoni. Mae hyn yn arbennig o amlwg ym mynedfeydd dwyreiniol a gorllewinol Bridge Street lle mae goleuadau traffig ac arwyddion lu.

Mae meinciau wedi'u gosod ar Bridge Street sy'n cynnig lleoedd i gael seibiant a myfyrio. Mae eu dyluniad a'u deunydd yr un fath ac yn gymorth i uno'r ardal hon. Mae goleuadau stryd traddodiadol hefyd sy'n gymorth i uno'r ardal hon. Nid yw hyn wedi'i barhau ar Stryd yr Eglwys sy'n gymorth i gyfnerthu'r gwahaniaeth rhwng y ddwy.




Ardal gyhoeddus wedi'i phedestreiddio ar Bridge Street



Mynwent St Elli



Golygfeydd i'r AG o'r fynedfa ddwyreiniol


Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli
Mannau i gerddwyr
Blaen siopau hanesyddol
Nodwedd o'r treflun
Celfi stryd
Tŵr
Hall Street Methodist Church
Sunday School
GELLI-ONN
THOMAS STREET
ESS
LLYS YR HEN FELIN
HALL STREET
VAUXHALL ROAD
PH
Car Park
Surgery
The Verandah
St Ellyw's Church
Cross
War Memorial
Lych Gate
Line Of Posts
BRIDGE STREET
Rising Bollard
Cwrt Buckley
Crown Parade
Falcon Chambers
Shelter
LB
Llanelly House
Library
Club
Brookfield House
CHURCH STREET
The Grange
The Old Vicarage
El Sub Sta
Hall
The Corner House
PO
CROWN PRECINCT
VAUGHAN STREET
MINCING LANE
Posts
TCB
Und
MARKET STREET
Line of Posts
ED Bdy
Def

## 5.6 Deunyddiau ffiniau a thriniaethau

Mae'r adeiladau yn yr AG yn nodweddiadol yn ffinio ymyl y stryd, ac eithrio'r eglwys sydd â wal ffin isel o gerrig rwbel a giatiau metel addurniadol, a'r Hen Ficerdy sydd â rheiliau metel addurniadol. Mae gan neuadd y gymuned wal ffin isel o gerrig rwbel sy'n dal i fod yn ei lle, ond wedi'i llenwi fel na chyfeirir ati felly mwyach. Mae rheiliau metel cyfoes sy'n mynd yn groes i gymeriad yr AG wedi'i gosod ar ymylon gogleddol a gorllewinol yr eglwys sy'n cynyddu effaith weledol y ffordd. Mae ymyl gwyrdd i'r ochr ddwyreiniol, sef yr unig ffin werdd yn yr AG, ac mae'n cael gwared ar yr ymyl caletach i'r fynwent yn sgil y wal. Gall rhagor o goed ar y stryd neu barhau'r wal ffin o gerrig rwbel helpu i sicrhau bod y fynwent yn diffinio ymyl y stryd, yn hytrach na'r ffordd.



Wal ffin tu blaen i neuadd y gymuned gyda datblygiad y tu ôl iddi



Ymyl gwyrdd a wal ffin o gerrig i'r eglwys




Rheiliau metel yn yr Hen Ficerdy

# 6.0 Dadansoddiad

### 6.1 Adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr Ardal Gadwraeth

Yn ogystal â'r adeiladau nodedig sydd wedi'u nodi yn adran 4.1, mae adeiladau eraill sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad ac ansawdd yr ardal gadwraeth; gall hyn fod am sawl rheswm gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys eu cyfraniad at y treflun, ansawdd pensaernïol, nodweddion addurniadol, neu gysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol.


Er bod nifer o adeiladau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal gadwraeth, mewn sawl achos mae ansawdd eu pensaernïaeth wedi'i gyfaddawdu gan addasiadau gwael. Er gwaethaf hyn, mae'r adeiladau hyn yn dal i ddangos priodweddau cryf a chyfraniadau cadarnhaol y gellir eu gwella'n fawr drwy atgyweirio'r addasiadau sy'n tynnu oddi ar yr adeiladau. Byddai ceisiadau i ddad-wneud addasiadau ansensitif fel cais annibynnol neu fel rhan o ailddatblygiad yn cael eu cefnogi.

### 6.2 Adeiladau sy'n tynnu oddi ar yr Ardal Gadwraeth

Adnabyddir adeiladau negyddol fel y rheini sydd,

oherwydd eu graddfa, dyluniad manwl, neu ddeunyddiau, yn anghydweddol mewn perthynas â phrif nodwedd yr ardal gadwraeth. Gellid eu hystyried yn addas ar gyfer ail-ddatblygu cyfanwerthu, er yn rhai achosion, gall fod yn addas cadw cragen yr adeiladau hyn, gan osgoi'r carbon corfforedig sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu ar raddfa fawr.

Mae adeiladau cadarnhaol a'r rhai sy'n tynnu oddi ar yr ardal i'w gweld ar y map canlynol.



Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli
Adeiladau cadarnhaol
Adeiladau amharol

## 7.0 Arwyddocâd

Un o’r egwyddorion arweiniol i reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yw dealltwriaeth am arwyddocâd yr ased hwnnw, boed yn adeilad, lle, neu rywun sy’n fwy anniriaethol. Mae arfer dda yn awgrymu asesu arwyddocâd mewn cymhariaeth â chyfres o werthoedd sydd wedi’u nodi isod:

Gwerth Tystiolaethol: Yr olion a’r deunydd ffisegol sy’n goroesi ac yn dal i fodoli yn yr ardal

Gwerth Hanesyddol: Sut all yr ardal roi dealltwriaeth i ni am bobl, digwyddiadau neu agweddau ar fywyd yn y gorffennol

Gwerth Esthetig: A yw’n brofiad braf crwydro’r ardal a chael profiad ohoni?

Gwerth Cymunedol: Y gwerth mae’n ei roi i’r bobl sy’n byw yn yr ardal, yn gweithio ynddi ac yn ymweld â hi

Efallai fod pob un o’r gwerthoedd hyn yn bodoli ar lefelau amrywiol, o isel i uchel, ac mae’n bwysig deall hynny. Yn ogystal, mae’n bwysig cydnabod yr eitemau hynny y mae eu perthnasedd y tu hwnt i’r categorïau hyn neu’n berthnasol i sawl categori ar lefelau gwahanol. Gall hyn godi yn arbennig wrth ystyried y nodweddion hynny sy’n creu ymdeimlad o le.

Mae’r crynodeb canlynol yn nodi’r eitemau o arwyddocâd allweddol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Dilynir hwn gan archwiliad manylach o bob eitem ac yn y casgliad nodir sut mae pob un yn gysylltiedig â gwerthoedd tystiolaethol, hanesyddol, esthetig, a chymunedol ac ar ba lefel.

- Lleoliad Eglwys Sant Elli, sef tarddiad y dref
- Canolfan ar gyfer diwydiant Cymru a gefnogodd ei thwf yn ogystal â thwf trefi cyfagos drwy ei lleoliad ar yr arfordir
- Plas Llanelly, adeilad arwyddocaol â phwysigrwydd
- cenedlaethol
- Bu nifer o deuluoedd, pobl a digwyddiadau enwog o fudd i dyfu’r dref a chynnal ei phwysigrwydd
- Potensial archaeolegol uchel
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i’r ardal, ohoni a thrwyddi, yn canolbwyntio’n aml ar St Elli
- Adeiladau ag arwyddocâd lleol a chenedlaethol
- Adeiladau nodedig gyda’u manylion, deunydd a defnydd unigol eu hunain, sy’n creu amrywiaeth ac yn newid y golygfeydd stryd yn barhaus
- Sgwâr trefol amlwg sy’n gysylltiedig â’r eglwys

*Eglwys Sant Elli*

Mae’r eglwys yn dominyddu rhan helaeth o’r AG, ac yn rhwystro nifer o’r golygfeydd i’r ardal. Ceir nifer o goed, strwythurau, a chofebion yno. O’r eglwys y datblygodd y dref ac mae’n adeilad rhestredig Gradd II* am ei ansawdd pensaernïol ac arwyddocâd hanesyddol ac yn parhau i fod yn un o brif nodweddion yr AG.

*Canolfan diwydiannau*

Yn rhan enfawr o hanes tref Llanelli yw ei chefndir diwydiannol ac mae’r rhan fwyaf o’r dref a welwn heddiw o ganlyniad i chwyldro diwydiannol y 19eg Ganrif a arweiniodd at ei ehangiad cyflym, gan gyflwyno ffatrïoedd yn ogystal â thai, siopau, adeiladau cyhoeddus, arloesiadau, cyfoeth a theuluoedd nodedig. Mae tref Llanelli hefyd wedi cefnogi datblygiad trefi eraill ar draws de Cymru drwy ei lleoliad strategol ar gyfer masnachu ar yr arfordir a’r seilwaith rheilffordd a oedd yn caniatáu i aneddiadau mewndirol gludo eu nwyddau er mwyn eu hallforio.

*Plas Llanelly*

Tŷ tref Sioraidd coeth rhestredig Gradd II yng Nghymru y mae swm sylweddol ei ddeunydd gwreiddiol yn parhau. Mae wedi bod yn gartref i sawl teulu lleol nodedig sydd wedi cyfrannu at dwf y dref i’w ffurf bresennol.

Er ei fod wedi’i drosi’n bistro a man digwyddiadau erbyn hyn, mae’n parhau i fod yn adeilad arwyddocaol sy’n diffinio cornel Bridge Street a Stryd Vaughan ac mae’n cynnal cyswllt ffisegol â thwf y dref a’r cyfoeth a ddaeth i’w rhan yn y 18fed Ganrif ymlaen.

*Digwyddiadau a phobl nodedig*

Mae'r AG wedi gweld sawl digwyddiad hanesyddol nodedig, wedi bod yn gartref i sawl preswylydd nodedig ac mae'n cynnal cysylltiad ffisegol â nifer o'r rhain drwy strwythurau adeiledig. Mae hyn yn cynnwys: John Graham Chambers, a gafodd ei eni ym Mhlas Llanelly ac a oedd yn gyfrifol am ddeddfau modern athletau, bocsio a rhwyfo; John Wesley, a bregethodd yng nghyffiniau Eglwys Elli ddeuddeg gwaith; Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Llanelli, a gafodd ei sefydlu mewn tŷ ar Gelli-onn; Plas Llanelly, a gafodd ei adeiladu ar gyfer

Syr Thomas Stepney y gellir credydu cryn dipyn o dwf y dref iddo, yn ogystal â William Chambers, sylfaenydd Crochendy De Cymru; ceir nifer o gofebau eithriadol yn dyddio'n ôl i'r 18fed Ganrif i aelodau'r teuluoedd Stepney a Vaughan, yn ogystal â gwydr lliw gan Burne-Jones; anerchodd Emmeline Pankhurst bobl Llanelli yn Neuadd y Plwyf.

*Potensial archaeolegol uchel*

Mae gan yr ardal radd uchel o botensial archaeolegol dan ddaear a allai ddatgelu rhagor o wybodaeth ynghylch tarddiad Canoloesol anhysbys y dref sydd wedi'u cuddio ar hyn o bryd gan ddatblygiadau'r dref o'r 19eg a'r 20fed Ganrif.

*Golygfeydd sylweddol*

Mae'r eglwys a'r fynwent yn parhau i fod wrth galon yr AG, yn ogystal â golygfeydd hir heb eu heffeithio o strydoedd allan o'r ardal. Drwy bedestreiddio Bridge Street a Stryd Vaughan, crëwyd lleoliad trefol cadarnhaol lle ellir gweld yr Eglwys, y llyfrgell, a Phlas Llanelly. Fel y cyfryw, mae'r ardal wedi'i dominyddu gan olygfeydd trefol, ond gyda choed ar y stryd a'r fynwent yn gwanhau hyn ac yn cynnig lleoedd eraill i bobl allu ystyried eu hamgylchedd.

*Adeiladau arwyddocaol*

Mae cyfres o adeiladau rhestredig sydd wedi'u gwneud yn rhai rhestredig oherwydd eu hansawdd pensaernïol a'u deunydd hanesyddol sydd wedi goroesi. Fel y cyfryw, nid yn unig maen nhw'n cyflwyno esthetig o ansawdd ond maent hefyd yn caniatáu rhywun i ddeall sut fyddech chi wedi profi'r ardal yn y gorffennol. Lle bynnag mae deunydd hanesyddol yn goroesi, gall hyn arwain y ffordd i ail-gyflwyno manylion sydd wedi'u colli ac ysbrydoli datblygiad y dyfodol sy'n deillio o gymeriad o ansawdd yr ardal.

*Adeiladau nodedig*

Mae'r ardal yn weddol gywasgedig ac wedi'i gwneud o gyfres o adeiladau nodedig, ar raddfa fwy sydd o ansawdd pensaernïol ac arwyddocâd hanesyddol. Mae'r rhain yn cynnal eu natur unigol eu hunain a'u hamrywiaeth o ran arddull, deunydd, manylion a defnydd gan greu grŵp o werth arwyddocaol ar yr un pryd.

*Sgwâr trefol*

Mae pedestreiddio Bridge Street wedi gwella gosodiad Plas Llanelly, y llyfrgell, Eglwys St Elli, a'r Mansel Arms gan ddarparu lle o ansawdd i bobl allu myfyrio a deall eu hamgylchoedd.

| | Gwerth Tystiolaethol | Gwerth Hanesyddol | Gwerth Esthetig | Gwerth Cymunedol |
|---|---|---|---|---|
| Eglwys Sant Elli | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | Gwerth Canolig |
| Canolfan diwydiannau | Gwerth Canolig | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | Gwerth Isel |
| Plas Llanelly | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | Gwerth Isel |
| Digwyddiadau a phobl nodedig | Gwerth Canolig | Gwerth Uchel | | |
| Potensial archaeolegol | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | | |
| Golygfeydd sylweddol | | | Gwerth Canolig | Gwerth Isel |
| Adeiladau ag arwyddocâd lleol a chenedlaethol | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | |
| Adeiladau nodedig | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | Gwerth Uchel | |
| Sgwâr trefol | | | Gwerth Uchel | Gwerth Canolig |

Gwerth Isel
Gwerth Canolig
Gwerth Uchel

# 8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli

**Trosolwg strategol**

'Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad' yw ardaloedd cadwraeth fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

1990. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sicrhau y rhoddir 'sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal honno' (Adran 72). Mae gan CSC ddyletswydd 'o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw ran o'u hardaloedd sy'n ardaloedd cadwraeth' (Adran 71).

Gweler y tabl canlynol am grynodeb o'r prif faterion a'r bygythiadau a gafodd eu hadnabod wrth baratoi Gwerthusiad Nodweddion Ardal ar gyfer Llanelli.

Ynghlwm â phob eitem mae argymhellion ar gyfer ei rheoli. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac nid yw'n eithrio eitemau ychwanegol a allai gyflwyno eu hunain yn y presennol neu wrth ddatblygu'r AG yn y dyfodol.

Mae'r materion dan sylw yn ymwneud â'r eitemau sy'n achosi niwed i ymddangosiad a/neu gymeriad yr ardal. Bygythiadau yw'r eitemau hynny nad ydynt yn achosi niwed ond gallant achosi niwed drwy addasiad ansensitif. Dylai'r eitemau hynny sydd wedi'u hadnabod fel materion gael eu hystyried fel y rheini sy'n cyflwyno bygythiad parhaus. Ochr yn ochr â phob un ceir argymhelliad rheoli i sicrhau bod cymeriad, ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ei harwyddocâd a'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol yn cael eu cadw a'u gwella. Gallai'r argymhellion hyn ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol fod yn sail i gynhyrchu dogfen bolisi fwy manwl ac ehangach ar gyfer rheoli'r ardal, wedi'i chreu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r materion wedi'u hadnabod drwy ymweliadau â'r safle, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor Sir ac aelodau'r cyhoedd. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, o ran cadwraeth deunyddiau hanesyddol sy'n bodoli ac effaith datblygiadau newydd ar gymeriad ac ymddangosiad yr AG. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hadnabod i effeithio ar dir cyhoeddus.

Ceir enghreifftiau er mwyn dangos esiamplau da a drwg o reolaeth yr eitemau hyn i gynnig rhagor o arweiniad wrth ystyried datblygu yn yr ardal. Mae'n bwysig bod y canlynol yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r holl ddogfennau cyfarwyddyd a pholisïau perthnasol, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033 CSC a chanllawiau cynllunio atodol.

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **1.0** | **Golygfeydd a lleoliad** | | |
| 1.1 | Gallai'r tu ôl i Bridge Street fod yn rhan llawn cymeriad o'r AG, gan gynnig cipolygfeydd oddi wrth y brif dramwyfa a chynnal cysylltiadau hanesyddol yr ardal hon fel ardal wasanaethau. Oherwydd diffyg gwelededd ymddangosiadol, gall yr ardal hon annog ymddygiad gwrthgymdeithasol megis taflu sbwriel, difrod i adeiladau, mannau cyhoeddus, a graffiti. Mae hefyd yn dioddef o ddiffyg cynnal a chadw cyffredinol ar dir cyhoeddus a thriniaethau i ffiniau, sy'n erydu ei chymeriad. | Dylid asesu'n ofalus cynigion i ddatblygu i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad ac ymddangosiad y strydoedd ochr a'r adeiladau cefn, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif dramwyfeydd. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod yr ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol. Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn, gan gynnwys biniau. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd. |  |
| 1.2 | Gall fod yn dasg anodd gwarchod golygfeydd i'r AG ac ohoni, oherwydd gall yr adeiladau hynny sydd â'r potensial i effeithio ar olygfeydd allweddol fod y tu hwnt i ardaloedd gwarchodedig megis yr AG; a dim ond ar ôl eu hadeiladu y gwelir eu heffaith lawn. Mae hyn yn gysylltiedig â chyflwyno adeiladau uchel y tu allan i'r AG, neu'r rheini ar dir uwch sy'n effeithio ar olygfeydd i'r pellter o'r tirlun tu hwnt. Er enghraifft, yr adeiladau mawr, cyfoes y tu ôl i neuadd y gymuned a'r rheini ar gorneli Mincing Street. Mae golygfeydd pellgyrhaeddol tyrrau St Elli a'r llyfrgell hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at yr ardal. | Dylid asesu'n ofalus datblygiadau o fewn yr ardal gadwraeth i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig ar ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol.<br>Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei gosodiad rwystro neu dynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, tuag ati neu ohoni. Mae golygfeydd a thirnodau pwysig wedi'u pwysleisio yn y gwerthusiad, ond efallai y byddai eraill yn adnabod mwy ohonynt.<br>Dylai cynigion sydd â'r potensial i effeithio a rhwystro golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, a'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, gael eu hystyried yn ofalus.<br>Mae'n bosibl y bydd angen golygfeydd wedi'u creu ar gyfrifiaduron sy'n dangos effaith cynigion er mwyn dangos yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal neu ei gosodiad. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **2.0 Dymchwel adeiladau** | | | |
| 2.1 | Yn sgil y rhwydwaith ffyrdd a'r ailddatblygiad cyfoes, dymchwelwyd nifer fawr o adeiladau sydd wedi erydu cymeriad yr ardal drwy golli asedau treftadaeth. | Mae nifer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. |  |
| **3.0 Ailddatblygu** | | | |
| 3.1 | Gall defnyddio deunyddiau modern nad ydynt yn cyd-fynd â'r cyfuniad presennol o ddeunyddiau neu nad yw'n briodol eu defnyddio, erydu cymeriad hanesyddol ac arwyddocâd yr AG. Er y dylai adeilad fod yn addas i'r presennol, bydd peth gwarchodaeth o gyfuniad o ddeunyddiau gwreiddiol yr AG yn sicrhau parhad. Yn yr un modd, mae adeiladau sydd wedi'u dylunio'n wael wedi achosi niwed i'r AG; rhaid parchu nodweddion gwreiddiol dyluniadau'r 18fed Ganrif a dechrau'r 19eg Ganrif rhag achosi rhagor o niwed. | Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir.<br><br>Ar y cyfan, dylai pob gwaith i adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei osodiad a dylai wella ei ymddangosiad traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at Ganllaw Creu Lleoedd a Dylunio 2016. |   |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 3.2 | Mae plotiau ar gorneli yn byrth pwysig i'r AG ac yn gyffyrdd â ffyrdd eilaidd. Er enghraifft, mae'r adeiladau hynny i'r gorllewin o Bridge Street yn cynnig mynedfa gref i'r AG ond mae'r rheini i'r dwyrain yn wanach, yn ddatblygiadau cyfoes, yn fuarth gwasanaethau yn y tu cefn ac yn adeiladau gwag ar Bridge Street. | Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Pan mae adeiladau ar gorneli wedi'u hailddatblygu neu eu disodli, mae angen dealltwriaeth am eu heffaith a sut allant helpu i gryfhau'r mannau hyn. |  |

## 4.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Nid yw adeiladau yng nghefn Bridge Street ac yn ei phen dwyreiniol wedi'u hatgyweirio nac eu cynnal a'u cadw. Mae hyn wedi cael effaith ar olygfeydd a gallai arwain at golli'r asedau treftadaeth arwyddocaol hyn yn rhannol neu'n llwyr. | Cyhoeddi canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio priodol ar gyfer adeiladau a'r strwythurau o fewn yr Ardal Gadwraeth. |  |

## 5.0 Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Oherwydd lledu'r rhwydwaith ffyrdd, mae mwy o draffig ac mae hynny wedi cael effaith niweidiol ar gymeriad cyffredinol yr ardal, gan achosi llygredd sŵn ac amharu ar ysbeidiau o fyfyrio a gwerthfawrogi. Mae hefyd wedi gwahanu ymhellach Bridge Street a Stryd yr Eglwys. | Cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o bedestreiddio a gwella strwythur ffyrdd. Bydd y Cyngor yn annog a chefnogi cynigion ar gyfer gwella'r cysylltedd i gerddwyr a beicwyr gan ymgorffori mannau cyhoeddus. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 5.2 | Gall ‘annibendod’ ar y stryd drwy ormodedd o arwyddion, polion, a rhwystrau cyhoeddus, yn enwedig ar ochr y ffyrdd, achosi dryswch, effeithio ar olygfeydd, a thynnu oddi ar yr amgylchedd ehangach. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw’r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd. |  |
| 5.3 | Yn nodweddiadol, mae’r ffyrdd, palmentydd a thriniaethau cyfoes i ffiniau wedi’u gwneud o ddeunyddiau modern a gallant dynnu oddi ar leoliad yr adeiladau a’r mannau cyhoeddus. Dyma sydd wedi digwydd ar ymylon gogleddol, dwyreiniol a gorllewinol y fynwent. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw’r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd. |  |
| 5.4 | Mae dull cydlynol at lusernau a dodrefn stryd ar Bridge Street wedi helpu i uno’r ardal hon a gwella ansawdd y tir cyhoeddus.<br><br>I’r gwrthwyneb, ymddengys bod y ffyrdd a’r strydoedd i Stryd yr Eglwys ar wahân i’r dull cydlynol hwn sy’n gwaethygu eto y gwahaniad rhwng y ddwy ardal hyn. | Dylid dylunio arwyddion a dodrefn yn sensitif a’u hymgorffori ar y stryd. Byddai dull cydlynol yn helpu i uno cymeriad yr ardal a gwella ansawdd y tir cyhoeddus. Gellid cynhyrchu rhagor o ganllawiau ynghylch dylunio arwyddion a dodrefn stryd yn yr ardal gadwraeth, er mwyn sicrhau y cyflawnir dull cyson ac o ansawdd dda.<br><br>Mae cwmpas i gyflwyno goleuadau stryd mwy traddodiadol, deunyddiau traddodiadol ar gyfer palmentydd, a mwy o blanhigion ar y stryd ar draws yr ardal gadwraeth. |  |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **6.0** | **Triniaethau i ffiniau a pharcio** | | |
| 6.1 | Gall cyflwyno deunyddiau modern i greu ffiniau newydd a lloriau caled sy'n mynd yn erbyn yr AG neu wedi'u gwneud i ansawdd wael wanhau cymeriad ac amharu ar olygfeydd. | Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch y manylion pensaernïol nodweddiadol, megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. |  |
| **7.0** | **Dymchwel adeiladau a strwythurau** | | |
| 7.1 | Gall dymchwel, yn llwyr neu'n rhannol, adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu ymddangosiad yr AG erydu ansawdd bensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys adeiladau cyfan ar gyfer eu hailddatblygu neu rannau o ardaloedd megis simneiau. | Mae nifer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. |  |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **8.0** | **Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol** | | |
| 8.1 | Mae nifer o doeau amlwg sy’n effeithio ar olygfeydd i’r ardal a thrwyddi a gall cyflwyno eitemau megis erialau, dysglau lloeren, dormeri, neu golli simneiau neu osod teils coch a choncrid yn lle llechi gael effaith negyddol ar y golygfeydd hyn. | Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau o’r fath. |  |
| 8.2 | Gall dewis amhriodol o liwiau gael effaith niweidiol ar olygfeydd a chymeriad stryd. | Dylai canllawiau dylunio gynnwys argymhellion o ran lliwiau sy’n briodol i’r ardal ac i sicrhau cysondeb mewn perthynas â chymeriad ac ansawdd. | |
| 8.3 | Gall cyflwyno’r hyn sy’n ymddangos yn fân weithiau gael effaith gronnus ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd a gosodiad yr AG. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol:<br><br>Newid ffenestri i rai uPVC Cyflwyno gwasanaethau newydd sydd wedi’u gosod mewn lle amlwg<br><br>Colli nwyddau dŵr glaw haearn bwrw Colli drysau blaen pren panelog<br><br>Colli ffiniau hanesyddol megis rheiliau a waliau cerrig rwbel | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch y manylion pensaernïol nodweddiadol, megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy’n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio hefyd gynnwys cyngor ar ôl-osod adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er mwyn gwella eu perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth.<br><br>Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau rhestredig pryd bynnag mae’n briodol. |  |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 8.4 | Lle mae adeiladau wedi'u rendro, lliwiau niwtral sydd iddynt sy'n adlewyrchu lliwiau tywyll y brics, y cerrig a'r tirlunio caled. Gallai cyflwyno lliwiau sydd i'r gwrthwyneb i hyn gael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal. | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y lliwiau nodweddiadol (gan gynnwys cyfuniadau cadarnhaol o liwiau cyfagos), manylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. |  |

## 9.0 Dodrefn y stryd, arwyddion a ffyrdd

| | | |
|---|---|---|
| 9.1 | Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o hanes y dref a phryd bynnag mae'r rhain yn goroesi, dylid eu cynnal. | Gellid cynhyrchu rhagor o arweiniad ar ddylunio arwyddion yn yr Ardal Gadwraeth ac ymgorffori enwau lleoedd Cymraeg am enwau lleoedd a ffyrdd. |

## 10.0 Coed a Thirlunio

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.1 | Mae angen gwarchodaeth barhaus, effeithiol ar y fynwent a'r ardal werdd gyfagos, yn ogystal â llinellau stryd, yn enwedig yn ystod datblygiad newydd a gwaith addasu. | Mae lle ar gyfer mwy o goed ac i blannu pethau eraill er mwyn gwella ymddangosiad yr ardal gadwraeth a'i photensial am fioamrywiaeth, ac mae hyn yn rhywbeth i'w annog. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal. |  |
| 10.2 | Gall y defnydd o goed, fflora a ffawna fod yn groes i'w hamgylchfyd os cânt eu dewis heb roi ystyriaeth i'w cyd-destun. | Dylid annog y defnydd o goed, fflora a ffawna pan gaiff cynlluniau tirlunio meddal eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. | |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
|---|---|---|
| **11.0** | **Newid defnydd** | |
| 11.1 | Gall cyflwyno gweithgareddau masnachol i hen adeiladau preswyl achosi niwed drwy; | Byddai unrhyw gynnig i newid defnydd adeiladau presennol yn gofyn ystyriaeth ofalus o'r effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau dilynol i fynediad ar gyfer danfoniadau, parcio, a gwasanaethau allanol, megis unedau cyddwyso ac offer eraill. Dylid annog defnydd preswyl parhaus ar strydoedd sydd â natur o dai preswyl yn draddodiadol. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio.  |
| | Cyflwyno arwyddion nad ydynt yn ymateb i gyfrannau neu strwythur yr adeilad. | |
| | Cyflwyno ffenestri blaen siopau sy'n llethu graddfa ddomestig yr adeilad ac yn arwain at golli deunydd gwreiddiol. | |
| | Gall rhannu perchnogaeth achosi dryswch mewn perthynas â chynnal a chadw ac arwain at ddirywiad cyffredinol yn yr adeilad. | |
| | Cyflwyno caeadau diogelwch allanol a all effeithio'n sylweddol ar ymddangosiad allanol adeilad ac ychwanegu at yr edrychiad o ddiffyg diogelwch. | Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwarchod yr ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn caeadau diogelwch amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac ymddangosiad traddodiadol yr ardal. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio, gan gynnwys sut mae gwella diogelwch mewn modd addas. |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
| --- | --- | --- |
| | Cyflwyno cysgodlenni neu ganopïau ar raddfa amhriodol, yn aml mewn deunyddiau anhraddodiadol, sy’n torri rhythm yr adeiladau teras a llinell yr adeiladau. | Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella’r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac ymddangosiad traddodiadol yr ardal. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio, gan gynnwys sut mae gwella diogelwch mewn modd addas a sut mae ymgorffori cysgodlenni a chanopïau. |

## 11.0 Cyffredinol

11.1 Archaeoleg

Wrth ystyried unrhyw gynnig am ddatblygiad sylweddol, dylid asesu'n broffesiynol yr effaith bosibl ar olion archaeolegol a chymryd cyngor o ran y ffordd orau o'u cadw a'u gwarchod. Dylid hefyd ystyried sut allai defnyddiau blaenorol y safle, a hen strwythurau ac adeiladau ddylanwadu dyluniad elfennau newydd.

11.2 Yr Argyfwng Hinsawdd

Dylid ystyried yn ofalus cynigion i ôl-osod er mwyn gwella effeithiolrwydd ynni i sicrhau cydnawsedd â deunyddiau adeiladu traddodiadol, ymarferoldeb ac arwyddocâd.

Os cynigir dymchwel adeilad, dylid rhoi ystyriaeth i'r cylch carbon oes, gan ystyried hefyd carbon corfforedig yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach na rhoi adeilad newydd yno.

Dylid annog gofalu ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, drwy gynnal a chadw, rheoli a mesurau effeithiolrwydd ynni gwell.

11.3 Gweithredu ac Adolygu

Mae angen glynu wrth yr holl ddyletswyddau statudol dan y Deddfau Cynllunio yn sgil dynodiad ardal gadwraeth. Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r argymhellion a geir yma a ffurfio cynllun rheoli ffurfiol (bwriedir i'r adroddiad hwn ffurfio sylfaen hwn) i'w adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y polisïau yn parhau i fod yn ddefnyddiol a pherthnasol. Dylai'r Cyngor geisio ymgymryd ag astudiaethau perthnasol eraill a chreu rhagor o arweiniad fel y nodwyd yma, pan mae'r adnoddau ar gyfer hyn ar gael.

11.4 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth

Dylid darparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gan ymgeiswyr, lle ystyrir bod cynnig yn effeithio ar yr ardal gadwraeth (boed yn y ffin neu ei osodiad) neu ased treftadaeth oddi mewn iddi.

## 9.0 Cyfleoedd

Mae'r cyfleoedd canlynol yn ymwneud â phosibiliadau adnabyddedig ar gyfer dad-wneud niwed, gwella'r ardal a gwerthfawrogiad ohoni, neu reoli datblygiad.

Mae'r rhain wedi'u hadnabod drwy baratoi'r ddogfen hon a'r adran materion, bygythiadau a rheolaeth flaenorol.

1. Ar hyn o bryd, mae ffiniau gogleddol, dwyreiniol a gorllewinol y fynwent wedi'u dominyddu gan y ffordd yn ogystal â'r rhwystrau cyfoes, arwyddion traffig a sŵn sydd ynghlwm â hyn. Gallai cyflwyno triniaethau ffiniau sy'n cyd-fynd yn well â deunyddiau a manylion nodweddiadol yr ardal, neu gyflwyno rhagor o goed ar strydoedd neu blanhigion dwys helpu i sgrinio'r ardal hon eto rhag y ffordd.

2. Mae ymyl gorllewinol yr AG yn cysylltu â'r ffin werdd i neuadd y gymuned sydd â nifer o goed arwyddocaol ar y stryd ac a allai gynnig llwybr sydd â mwy o gymeriad iddo drwy Gerddi'r Gwanwyn. Byddai cynnal a chadw'r ardal werdd hon ac atgyweirio ac adnewyddu'r adeilad cyfoes y tu ôl iddi yn helpu i annog pobl i ddefnyddio'r llwybr hwn.

3. Mae'r ardal y tu ôl i Blas Llanelly wedi cadw ei defnydd hanesyddol fel buarth gwasanaethau ond ar hyn o bryd caiff ei nodweddu gan barcio, estyniadau cyfoes, ac arwynebau tarmac. Byddai cyflwyno tirlunio caled a meddal o ansawdd well, yn ogystal â chynnal a chadw ac atgyweirio gweddau cefn yn helpu i ddyrchafu'r ardal a'r golygfeydd drwyddi ac ohoni.

4. Mae'r estyniad cyfoes i'r llyfrgell yn tynnu oddi ar yr adeilad hanesyddol ac yn creu gwahaniad rhwng Bridge Street a Stryd yr Eglwys y mae cysylltiad hanesyddol wastad wedi bod rhyngddynt. Gall adfywio'r estyniad hwn i adlewyrchu deunyddiau a manylion yr adeiladau cyfagos helpu i wanhau effaith yr estyniad hwn a gwella'r cysylltiad gweledol rhwng y ddwy ardal hyn yn yr AG.



1




2




3



4




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli

Maes cyfle




# Atodiadau

## Atodiad I: Llyfryddiaeth


Cyhoeddiadau

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (legislation.gov.uk)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 well-being-of-future-generations-wales-act-2015-the-essentials.pdf (llyw.cymru)

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021 Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 (llyw.cymru)

Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017 Nodyn Polisi Cynllunio Cymru 24 Mai 2017 (llyw.cymru)

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017 Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru (llyw. cymru)

Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy Dogfen Egwyddorion Cadwraeth CY (llyw. cymru)

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, Medi 2021 Microsoft Word - Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol DOC TERFYNOL (llyw.cymru)

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021 Adroddiad.pdf (llyw.cymru)

Websites

British Listed Buildings, Dyddiadau amrywiol, British Listed Buildings - History in Structure, 1-10 Mawrth 2022

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2021, Mapiau Degwm Cymru, Mapiau Degwm Cymru - Hafan (llyfrgell.cymru) 14 Mawrth 2022

The National Library of Scotland, 2021, Mapiau OS â dyddiadau amrywiol, Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland (nls.uk) 1 - 14 Mawrth 2022

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, 2021, The Archaeology of the Medieval Towns of Southwest Wales; St Clears, EPRN_125663_LLANELLI.pdf (dyfedarchaeology.org.uk), 16 Mawrth 2022

Genuki, 2021, Llanelli, GENUKI: Llanelli, Caerfyrddin 16 Mawrth 2022


Llanelli Community Heritage, 2022, Llanelli Community Heritage (llanellich.org.uk), 16 – 17 Mawrth 2022

The Church in Wales, 2022, The Parish of Llanelli in the Diocese of Swansea and Brecon, The Parish of Llanelli | A parish within the Church in Wales, 15 Mawrth 2022

## Atodiad II: Geirfa

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| A4D | Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio Gorchmynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio. |
| BAR | Adeilad Mewn Perygl | Cofrestr adeiladau, a gynhelir gan awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchweliad neu golled arall. Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem. |
| AG | Ardal Gadwraeth | Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu wella |
| GAG | Gwerthusiad Ardal Gadwraeth | Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr AG ar adeg benodol |
| CPO | Gorchymyn Prynu Gorfodol | Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg |
| | Ffasgia | Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop |
| CSC | Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| GDO | Gorchymyn Datblygu Cyffredinol | Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer |
| | Cadw | Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirwedd a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru |
| ARh | Adeilad Rhestredig | Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar ar restr o adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd I am y pwysicaf, Gradd II* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd II am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm |
| | Llain Tir Bwrdais | Mae llain tir tir bwrdais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hŷn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol |


| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| LBC | Caniatâd Adeilad Rhestredig | Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol |
| CLl | Cynllun Lleol | Dogfen a baratowyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol yn nodi ei bolisi cynllunio am gyfnod penodol i ddod; bydd yn cynnwys polisi ynghylch yr amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill. |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru | Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio |
| Deddf P(LBCA) 1990 | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol |
| | Hysbysiad Atgyweirio | Hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf P(LBCA) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion neu feddianwyr wneud atgyweiriadau brys i adeiladau rhestredig |
| Sn215 | Hysbysiad Adran 215 | Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal |
| SPG | Canllawiau Cynllunio Atodol | Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw |
| TPO | Gorchymyn Cadw Coed | Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol |




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Ardal Gadwraeth Llanelli

Map o'r Ffiniau




0 10 20 40

Graddfa m

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:
- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli
- Adeiladau rhestredig Gradd I
- Adeiladau rhestredig Gradd II*
- Adeiladau rhestredig Gradd II
- Adeiladau a strwythurau pwysig heb eu rhestru

Ardal Gadwraeth Llanelli

Map o'r Dynodiadau




0 10 20 40
Graddfa m


ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli
- Mannau gwyrdd cadarnhaol / wedi'u tirlunio / coed
- Toeau arwyddocaol
- Y prif dirnod / adeiladau allweddol
- Golygfeydd pwysig o'r dirwedd
- Golygfeydd pwysig o'r stryd
- Golygfeydd terfynedig
- Golygfeydd allwyredig

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Ardal Gadwraeth Llanelli

Dadansoddi Gofodol




ALLWEDD:
- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli
- Mannau i gerddwyr
- Blaen siopau hanesyddol
- Nodwedd o'r treflun
- Celfi stryd
- Tŵr

0 10 20 40
Graddfa m

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Ardal Gadwraeth Llanelli

Llecynnau Cyhoeddus




0 10 20 40

Graddfa m

ALLWEDD:
- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Llanelli
- Mannau gwyrdd
- Coed
- Grŵp o goed


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Ardal Gadwraeth Llanelli

Coed, Mannau Gwyrdd, Parciau a Gerddi

Fel rhan o baratoi’r Gwerthusiad Ardal Gadwraeth a’r Cynllun Rheoli hwn, ymgymerwyd ag adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth i ddeall y rhesymeg dros ddynodi’r ardal, a pha un ai a yw datblygiad ers ei ddynodiad cychwynnol yn golygu y dylid ail-lunio’r ffin hon ai peidio. Ymgymerwyd â’r adolygiad hwn drwy gyfres o ymweliadau safle, yn ogystal ag ymchwil ddesg ac ymgynghori â’r Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid a’r cyhoedd.

Nid oes unrhyw addasiadau awgrymedig i’r AG, ond argymhellir ystyried creu dwy AG arall i roi gwarchodaeth i beth o dreftadaeth bensaernïol a hanesyddol y 19eg Ganrif, y cyntaf i gynnwys Stryd Stepney, Stryd y Farchnad a Stryd yr Eglwys a’r ail i gynnwys Parc Howard a’r cyffiniau.




Yr Ardal Gadwraeth Newydd a Gynigir

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

- Awdurdodau cynllunio lleol i bennu ardaloedd y mae'n ddymunol eu gwarchod a'u gwella, a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth (adran 69 [1])
- Awdurdodau cynllunio lleol i adolygu eu gweithgareddau blaenorol yn yr ardal hon, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth cyfredol, ac ychwanegu mwy o ardaloedd cadwraeth (section 69 [2])
- Awdurdodau cynllunio lleol i ffurfio a chyhoeddi cynigion ar gyfer gwarchod a gwella ardaloedd cadwraeth ac ymgynghori'r cyhoedd mewn perthynas â'r ardal dan sylw, ac ystyried y safbwyntiau sy'n cael eu mynegi (adran 71 [1 a 2])
- Fel rhan o waith awdurdodau cynllunio lleol, bydd swyddogaethau cynllunio yn yr ardal gadwraeth yn 'talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal honno' (adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus, y mae'n rhaid iddynt sefydlu a chyhoeddi amcanion wedi'u dylunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Un o'r nodau hyn yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, wedi'i ddisgrifio fel 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg'. Mae cysylltiadau clir rhwng y ddyletswydd benodol i warchod neu wella ardaloedd cadwraeth, fel sy'n ofynnol drwy'r Ddeddf 1990, a'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo a gwarchod treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015. Gall ardaloedd cadwraeth sy'n cael eu gwarchod a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant pawb.

Polisi Cynllunio Cymru Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol sy'n adnabyddus fel asedau hanesyddol. Ystyrir ardaloedd cadwraeth yn asedau hanesyddol.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.6 bod amcanion penodol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amgylcheddau hanesyddol yn ceisio: [...] gwarchod neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.14 y dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn diogelu neu wella eu cymeriad a'u golwg a gwireddu eu gwerth treftadaeth yn llawn. Dylai awdurdodau cynllunio lunio eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth hen a/neu newydd a'u ffiniau. Gall paratoi gwerthusiadau a chynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd cadwraeth gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau rheoli datblygiadau.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.15 bod rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. Dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar sail buddion cyhoeddus.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.16 y gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai olygu bod datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol mewn ardal gadwraeth.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.17 bod dynodi ardaloedd cadwraeth yn golygu y gellir rheoli'r gwaith o ddymchwel adeiladau anrhestredig o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archaeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn unol ag arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.29 y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisïau penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac ymwneud yn unig â'r elfennau treftadaeth hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol. Gall gynnwys polisïau penodol i'r ardal leol yn ymwneud â:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad. Gallant hefyd gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag

ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes, ac ni ddylent gynnwys datganiadau neu gynigion manwl ar gyfer ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu.

- Nodir ym Mharagraff 1.36 bod gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio lleol ar fater sy'n gyfrifoldeb iddo ef yn y lle cyntaf, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid cyfiawnhau hynny. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio pwerau diofyn Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Nodir y canlynol yn y ddogfen hon:

- Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a nhw sy'n cadw'r wybodaeth ddiffiniol am eu ffiniau.
- Gall awdurdod cynllunio lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol i'w helpu i gyflawni polisïau yn y cynllun datblygu lleol. Gall canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel: Cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth.
- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adnabod ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu olwg a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen rhagor o ddynodiadau neu adolygiadau. Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru rymoedd i ddynodi ardaloedd cadwraeth ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Grym wrth gefn yw hwn sy'n cael ei ddefnyddio yn achosion eithriadol, er enghraifft, pan mae gan ardal ddiddordeb sy'n fwy na diddordeb lleol.

6.2 Mae dynodi ardal gadwraeth yn rhoi'r sylfaen ar gyfer polisïau sydd wedi'u dylunio i gadw neu wella pob agwedd ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal: gall hyn gynnwys patrwm yr anheddiad a threfn y lle a'r llwybrau yn ogystal ag arddull a math yr adeilad, a'r defnydd o ddeunyddiau a manylion. Gall seilwaith gwyrdd fod o bwys hefyd, ond nid yw dynodi rhywle yn ardal gadwraeth yn ffordd briodol warchod nodweddion y tirlun, ac eithrio pan maent yn ffurfio rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

6.3 O bryd i'w gilydd, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Yn unol ag arfer orau, dylid gwneud hyn bob pump i ddeg mlynedd. Mae'n arfer dda i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau cynllunio ategol. Rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Dan amgylchiadau eithriadol lle nad yw rhan o ardal gadwraeth, neu ardal gadwraeth gyfan, bellach yn cynnwys y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei dynodi, gellir addasu neu ganslo'r dynodiad hwnnw.

6.4 Gwerthusiad ardal cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynnig i warchod neu wella. Mae'n cynnig darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn adnabod cyfleoedd a blaenoriaethau gweithredu a all roi'r sylfaen ar gyfer cynllun rheoli mwy manwl. Dylai gynnwys dadansoddiad o'r polisi ac anghenion rheoli'r ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd rheolyddion cynllunio cyfredol, yr angen am warchodaeth atodol ac adnabod ffyrdd o warchod neu wella cymeriad arbennig. Bydd sylfaen fwy cadarn i bolisïau cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygiadau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd cadwraeth a byddant yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol at nodau hirdymor os yw cymeriad pob ardal gadwraeth wedi'i ddiffinio ac os oes polisïau ar gyfer eu gwarchod a'u gwella wedi'u nodi'n fanwl mewn cynllun rheoli. Gellir hefyd ystyried a ddylid cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn.

6.5 Oherwydd eu natur, mae gan ardaloedd cadwraeth nifer o randdeiliaid a dylai'r trefniadau rheoli gynnig cyfleoedd i gyfrannu at y cynllun a gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â'r broses honno. Bydd cynigion i warchod a gwella ar eu mwyaf effeithiol pan mae pob adran yn y cyngor yn deall arwyddocâd dynodi ac yn gweithio gyda'i gilydd. Felly, awgrymir yn gryf dull gweithredu gyda thîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis priffyrdd a thai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol fod yn glir y bydd y cynigion i ddatblygu yn cael eu beirniadu mewn perthynas â'u heffaith ar gymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth fel y nodir yn y ddogfen werthuso a rheoli. Bydd cynigion datblygu penodol mewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o dai preswyl, darparu adeilad neu adeiladau y mae'r arwyneb llawr a fydd yn cael ei greu yn sgil y datblygiad yn mesur 100 metr sgwâr neu fwy, angen datganiad dylunio a mynediad.

6.7 Mae nifer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canolfannau masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reolaeth reoledig a chadarnhaol o newid sy'n annog bywiogrwydd economaidd a chynnwrf cymdeithasol a diwylliannol a chydsynio â phensaernïaeth arbennig yr ardal ac ansawdd hanesyddol. Mae nifer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal, neu'n tynnu oddi ar yr elfennau hynny; dylai eu disodli fod yn ysgogiad i ddyluniad dychmygol, o ansawdd dda ac yn gyfle i wella'r ardal.

6.8 Un o ddibenion system rheoli hysbysebu yw annog yr arddangosiad o hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ymddangosiad yr amgylchedd. Mae'n rhesymol deall y bydd dyletswydd yr awdurdod cynllunio lleol i dalu sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth yn arwain, yn ymarferol, at safonau mwy manwl pan mae'r awdurdod yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath ai peidio.

6.9 Yn ardaloedd cadwraeth, mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol fod yn hyblyg wrth ddefnyddio eu grymoedd dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, oherwydd bod nifer o ardaloedd yn cynnwys safleoedd manwerthu a masnachol yn amrywio o siopau bach i ganolfannau masnachol llewyrchus. Mae hysbysebu yn yr awyr agored yn hanfodol ar gyfer gweithgarwch masnachol. Fel arfer, bydd llwyddiant busnesau lleol yn helpu perchnogion a thenantiaid safleoedd masnachol i gynnal cyflwr da adeiladau a sicrhau eu bod yn ddeniadol.

6.10 Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth er mwyn dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, er bod rhai eithriadau. Yn y cyd-destun hwn, rheol y llysoedd yw bod dymchwel yn golygu tynnu adeilad i lawr nes ei fod wedi'i ddinistrio'n llwyr neu i raddau sylweddol iawn o leiaf. Felly, gallai gwaredu adeilad cyfan ac eithrio ei ffasâd gyfrif fel dymchwel.

6.11 Gall Gweinidogion Cymru bennu nad

oes angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer disgrifiadau penodol o adeiladau ac mae Gweinidogion Cymru wedi nodi nad yw caniatâd Ardal Gadwraeth yn ofynnol ar gyfer rhai gweithiau. Mae'r gweithiau hyn yn cynnwys dymchwel adeilad sydd â chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 metr ciwbig a dymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Golyga hyn na fydd nifer o ddarnau o waith sy'n cynnwys dymchwel deunydd rhan o adeilad yn cael eu hystyried yn waith dymchwel ac ni fydd angen caniatâd ardal gadwraeth i'w gwneud.

6.12 Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd ceisiadau am Ganiatâd Ardal Gadwraeth yn gofyn datganiad effaith ar dreftadaeth, a ddylai egluro pam mae'r dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol ochr yn ochr ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

6.13 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylai cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath gael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf eang â chynigion i

ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.15). Yn achosion lle ystyrir bod adeilad yn gwneud mân gyfraniad neu dim cyfraniad o gwbl, fel arfer bydd awdurdod cynllunio lleol angen gwybodaeth lawn ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer y safle ar ôl dymchwel. Ni ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio'r safle oni bai bod yr ailddatblygiad ei hun yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ystyried egwyddorion eang datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, maint, a màs, wrth bennu a ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

6.14 Gall fod yn briodol cyflwyno cyflwr ar roi caniatâd i ddymchwel fel nad yw'n digwydd nes y ceir caniatâd cynllunio llawn ac ar ôl gwneud contract ar gyfer cyflawni'r datblygiad.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y grym i warchod coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion cadw coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig torri i lawr, difrigo neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid gwarchod y goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.

6.16 Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder coed. Yn rhai achosion, gallai plannu coed newydd neu ail-blannu fod yn ddymunol lle byddai hynny'n gyson â chymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

6.17 Mae gan orfodaeth rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried dull gweithredu mwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolyddion rheoleiddio, yn hytrach nag ymchwilio pan gyflwynir cwyn ffurfiol. Bydd agwedd gref a rhagweithiol at orfodi yn helpu i leihau'r nifer o droseddau a sicrhau gwelliannau parhaus yn yr ansawdd amgylcheddol.

6.18 Mae gan ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol neu fethiant awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad ynghylch caniatâd i ardal gadwraeth. Gellir gwneud apêl dan yr amgylchiadau canlynol: Pan mae awdurdod cynllunio lleol: Yn gwrthod cais i gymeradwyo ardal gadwraeth; Yn rhoi caniatâd i gais am ardal gadwraeth gydag amodau; Yn gwrthod cais i amrywio neu ryddhau amodau sydd ynghlwm â chaniatâd ardal gadwraeth; Yn gwrthod cais am ganiatâd sy'n ofynnol drwy amod a gyflwynwyd wrth roi caniatâd ardal gadwraeth; neu'n Methu â phennu cais am ganiatâd cyn pen 8 wythnos o'i ddilysu gan awdurdod cynllunio lleol.

6.19 Cyflwynir apeliadau i Weinidogion Cymru ar ffurflen cyn pen chwe mis o'r ymgeisydd yn cael hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn ategu at Bolisi Cynllunio Cymru1 a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn nodi cyd-destun y polisi a dyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol i ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn adnabod agweddau allweddol ar arfer dda o ran eu dynodi a'u gwerthuso, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygiad polisïau lleol er rheolaeth gadarnhaol a gwelliant fel bod eu cymeriad a'u hymddangosiad yn cael eu cynnal a'u gwella. Dylai hefyd helpu awdurdodau cynllunio lleol i ystyried Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) i gyflawni newid sensitif o ansawdd dda.

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants